Y SENEDD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.00 ar 24 MEHEFIN 2020, trwy Microsoft Teams.

Aelodau â phleidlais:	Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Dr Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol); Yr Athro Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi); Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr); Dr Cathryn Charnell-White; Dr Hazel Davey; Mr Prysor Davies; Dr Sarah Davies; Yr Athro Iain Donnison; Dr Rebecca Edwards; Dr Gwion Evans; Dr Patrick Finney; Dr Sarah Higgins; Dr Aloysius Igboekwu; Mr Penri James, Cadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Mr Chris Loftus; Dr Alex Mangold; Dr Louise Marshall; Yr Athro Robert Meyrick; Mr John Morgan; Mr David Moyle; Yr Athro Phillipp Schofield; Dr Anoush Simon; Miss Chloe Wilkinson-Silk, Swyddog Materion Academaidd UMAber ; Dr Victoria Wright; a'r Athro Reyer Zwiggelaar, Pennaeth Ysgol y Graddedigion.
Aelodau heb bleidlais:	Yr Athro Simon Cox; Dr Andrew Davies; Yr Athro Emyr Lewis; a'r Athro Andrew Thomas.
Yn gweinyddu:	Mr Tim Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; a Ms Emma Williams, Y Cofrestrydd Academaidd.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Yr Athro Simon Banham; Dr Guy Baron; Yr Athro Andrew Evans; Yr Athro Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Gwyddorau'r Ddaear a Bywyd); Yr Athro Nigel Holt; Dr Thomas Jansen; Dr Ffion Jones; Yr Athro Eleri Pryse; Yr Athro Qiang Shen, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol); a Dr Sarah Wydall.

43. MATERION A GODWYD GAN YR IS-GANGHELLOR

1. Cydymdeimlad

    1. Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

        1. Joshua King, Porthor Adnoddau;

        2. Dr Tedi Millward, cyn-Ddarlithydd y Gymraeg;

        3. Martin Nelmes, Darlithydd Cyswllt yn y Gyfadran Busnes a Gwyddorau Ffisegol; a

        4. Bruce Tyler, cyn-Bennaeth yr Uned Adnoddau Genetig Planhigion.

2. Sesiwn Wybodaeth

    Cyn y cyfarfod ffurfiol, cynhaliwyd sesiwn wybodaeth i aelodau'r Senedd ynglŷn ag ymateb y sefydliad i'r argyfwng Covid-19 - gan gynnwys yr oblygiadau i addysgu, dysgu, ymchwil, a chyllid.

44. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

45. COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 01 Ebrill 2020 (SEN1920-060).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir, yn amodol ar fân ddiwygiadau i restr y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

46. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN1920-061).

NODWYD

Y diweddariadau a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

47. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1920-062).

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar achos ers cyfarfod diwethaf y Senedd lle cafodd mater ei gymeradwyo gan yr Is-Ganghellor ar ran y Senedd.

2. Roedd y mater a gymeradwywyd gan yr Is-Ganghellor ar ran y Senedd yn ymwneud â diwygiadau ychwanegol i reoliadau mewn ymateb i Covid-19. Cafodd copi o'r diwygiadau pellach a gynigiwyd eu dosbarthu i aelodau'r Senedd er gwybodaeth cyn cael eu cymeradwyo gan yr Is-Ganghellor.

48. GOHEBIAETH

Doedd dim gohebiaeth i'w gofnodi.

49. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (SEN1920-063).

NODWYD

1. Roedd tair prif adran i'r adroddiad: adroddiad am uchafbwyntiau; adroddiad cynllunio a chofrestriadau myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebiadau.

2. Mae nifer y ceisiadau a derbyniadau am fynediad ym mis Medi 2020 yn dal yn uwch na'r un adeg y llynedd. Ond, roedd arwyddion yn cynyddu y byddai'r Clirio yn hynod gystadleuol, a disgwylir y bydd prifysgolion nad ydynt yn aml yn cymryd rhan ynddo yn gwneud hynny eleni oherwydd y cwymp yn niferoedd myfyrwyr rhyngwladol.

3. Roedd Gweinidog Prifysgolion Adran Addysg San Steffan, Michelle Donelan AS, wedi cyhoeddi'r diwrnod blaenorol y byddai myfyrwyr o'r Undeb Ewropeaidd (ar wahân i Weriniaeth Iwerddon) yn cael eu dosbarthu'n fyfyrwyr rhyngwladol o fis Medi 2021 yn Lloegr. Roedd Cymru'n debygol o wneud yr un peth. Mis Medi 2020 felly oedd y cyfle olaf i fyfyrwyr o'r fath fod yn gymwys am yr un ffi ag a godir ar fyfyrwyr Cartref, sef £9mil.

4. Llongyfarchodd yr aelodau'r cydweithwyr a fu'n llwyddiannus yn y prosesau diweddar i benodi i Gadeiriau a phenodi Penaethiaid Adrannau. Eglurwyd bod yr adroddiad yn ddamweiniol wedi hepgor teitl newydd yr Athro Simon Banham yn dilyn ei ddyrchafu i Gadair yn rhan o'i benodiad yn Bennaeth Adran.

50. ADRODDIAD O'R BWRDD ACADEMAIDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick (SEN1920-064).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfodydd y Bwrdd Academaidd ar 09 Mehefin 2020. Trafodwyd yr adroddiad yn fanwl gan aelodau'r Senedd.

2. <u>Datganiad ar Ganlyniadau Gradd</u>

   DERBYNIWYD

   Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick, yn ymgorffori drafft y Datganiad ar Ganlyniadau Gradd (SEN1920-065).

   NODWYD

   1. Ym mis Mai 2019, cyhoeddodd Pwyllgor Sefydlog Asesu Ansawdd y DU (UKSCQA) Ddatganiad o Fwriad yn dweud y dylai darparwyr gyhoeddi Datganiad ar Ganlyniadau Gradd yn dadansoddi eu proffil sefydliadol o ran canlyniadau gradd, a dangos canlyniadau adolygiad sefydliadol mewnol. Rhaid i'r Datganiad gael ei gymeradwyo gan y corff llywodraethu.

   2. Anfonwyd drafft y Datganiad ar Ganlyniadau Gradd at Adolygydd Allanol y Senedd i gael ei sylwadau, a'i drafod ar ôl hynny yn y Bwrdd Academaidd ar 05 Mawrth a 09 Mehefin 2020.

   PENDERFYNWYD

   3. Argymell y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r Datganiad ar Ganlyniadau Gradd i'w gyhoeddi (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

3. <u>Datganiad Blynyddol Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick, yn ymgorffori drafft y Datganiad Blynyddol (SEN1920-066).

NODWYD

Roedd Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch bellach wedi cyhoeddi ei Datganiadau Blynyddol i ddarparwyr addysg uwch am y flwyddyn galendr a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2019. Cafodd copi o Ddatganiad Blynyddol y Brifysgol ei atodi at yr adroddiad, a byddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor er gwybodaeth.

4. Rheoliadau a Chonfensiynau Gradd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick (SEN1920-067).

NODWYD

1. Yn ei gyfarfod ar 09 Mehefin 2020, argymhellodd y Bwrdd Academaidd y dylai'r Senedd gytuno i ddiwygiadau i'r Rheolau a Chonfensiynau Gradd, er mwyn cynnwys dau gynllun newydd a gafodd eu cymeradwyo'n ddiweddar gan Weithrediaeth y Brifysgol a chan y Panel Cymeradwyo Cynlluniau sefydlog.

PENDERFYNWYD

2. Cymeradwyo diwygio'r Rheolau a Chonfensiynau Gradd, er mwyn cynnwys y cyrsiau EMBA Rheolaeth, ac EMMGT Rheolaeth (**GWEITHREDU:** Y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick).

51. ADRODDIAD GAN FWRDD Y DDARPARIAETH GYDWEITHREDIADOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Judith Shepherd (SEN1920-068).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfod Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol ar 08 Mehefin 2020. Trafodwyd yr adroddiad gan aelodau'r Senedd.

2. Adroddiad Blynyddol ar Bartneriaethau Cydweithrediadol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Judith Shepherd (SEN1920-069).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn nodi statws y partneriaethau presennol rhwng y Brifysgol a darparwyr eraill, y partneriaethau a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn flaenorol, a'r rhai a oedd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Roedd yr Adroddiad hefyd yn

rhoi golwg gyffredinol ar y cylch gorchwyl Cyfleoedd Byd-eang yn dilyn ad-drefnu'r swyddogaethau Marchnata a Denu Myfyrwyr yn 2019.

2. Cafodd yr adroddiad ei groesawu gan yr aelodau, a byddai copi'n cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cyngor er gwybodaeth.

52. ADRODDIAD GAN Y BWRDD MARCHNATA A DENU MYFYRWYR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Sarah Whitehead (SEN1920-070).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfodydd y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr ar 10 Mehefin 2020. Trafodwyd yr adroddiad gan aelodau'r Senedd.

53. ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR YMCHWIL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Tîm Effaith Ymchwil (SEN1920-071).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ymchwil ar 01 Mehefin 2020. Trafodwyd yr adroddiad gan aelodau'r Senedd.

2. <u>Gofynion Diwydrwydd Dyladwy ar gyfer Ymchwil</u>

   DERBYNIWYD

   Adroddiad gan Swyddog Strategaeth Sefydliadol y Gronfa Ymchwil i Heriau Byd-eang (SEN1920-072).

   NODWYD

   Ar 21 Ebrill 2020, cymeradwyodd Gweithrediaeth y Brifysgol bolisi newydd yn cyflwyno'r diwydrwydd dyladwy i'w gyflawni gan y sefydliad ar sefydliadau tramor sy'n cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno cwmpas y polisi, y prosesau ar gyfer cyflawni gwiriadau, a chamau lliniaru posibl i'w cymryd lle bo angen.

54. ADRODDIAD O BWYLLGOR MOESEG YMCHWIL Y BRIFYSGOL

1. <u>Adroddiad Blynyddol ar Foeseg Ymchwil</u>

   DERBYNIWYD

   Adroddiad gan y Swyddog Uniondeb a Moeseg Ymchwil (SEN1920-073).

   NODWYD

1. Adroddiad Blynyddol ar gyfer blwyddyn academaidd 2018-19 oedd hwn, yn adeiladu ar yr adroddiad interim a ddatblygwyd ym mis Mawrth 2019. Roedd y fersiwn gyfredol yn cynnwys ffigurau wedi'u diweddaru ynghylch moeseg ymchwil na chawsant eu cynnwys yn yr adroddiad blaenorol.

2. Byddai adroddiad ar flwyddyn academaidd 2019-20 yn cael ei baratoi yn ystod yr hydref 2020, ac, yn y dyfodol, byddai'n cwmpasu cyfnodau adrodd llawn.

55. MATERION LLYWODRAETHU

1. Canlyniadau holiadur hunanasesu'r Senedd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1920-074).

NODWYD

1. Rhwng 29 Ebrill a 15 Mai 2020, gwahoddwyd aelodau'r Senedd i lenwi holiadur er mwyn rhoi adborth adeiladol ynglŷn ag effeithlonrwydd y corff llywodraethu yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol. Roedd y canlyniadau wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad a chawsant eu trafod gan yr aelodau.

2. Roedd rhai o'r ymatebion yn pwysleisio argraff nad oedd y Senedd yn rhoi digon o sylw i faterion yn ymwneud ag ymchwil. Cydnabuwyd bod cyrff llywodraethu academaidd yn nodweddiadol yn canolbwyntio ar faterion dysgu ac addysgu oherwydd gofynion rheoleiddiol. Ond, gobeithir y bydd camau a gymerwyd yn ddiweddar i wneud adroddiadau o'r Pwyllgor Ymchwil yn fwy amlwg ar agenda'r Senedd yn cynorthwyo i wneud iawn am unrhyw anghydbwysedd.

PENDERFYNWYD

3. Yn y dyfodol, y gwahoddid aelodau i gyflwyno unrhyw gwestiynau manwl cyn cyfarfodydd y Senedd er mwyn i'r arweinwyr gweithredol allu paratoi ymatebion mwy cynhwysfawr i'w trafod (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

2. Diwygiadau i ddogfennau llywodraethu

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1920-075).

NODWYD

1. Yn draddodiadol, mae Ysgrifennydd y Brifysgol yn adolygu dogfennau llywodraethu a Rheolau Sefydlog y Brifysgol bob gwanwyn, a gwahoddir y Senedd i adolygu unrhyw ddiwygiadau arfaethedig sy'n ymwneud â materion academaidd, cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cyngor.

2. O ganlyniad i'r adolygiad a wnaed, roedd diwygiadau'n cael eu cynnig i Ordinhad 11 (Y Cyngor: Aelodau'r Senedd) i ymestyn tymor aelodau'r Senedd ar y Cyngor i bedair blynedd.

PENDERFYNWYD

3. Argymell y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i Ordinhad 11; ac y byddai'r diwygiadau'n dod i rym ar 01 Awst 2020 (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

56. EITEMAU ER GWYBODAETH

DERBYNIWYD

Derbyniodd aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Adroddiad o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (SEN1920-076);

2. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol (SEN1920-077).

NODWYD

3. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

57. COFNODION PWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad yn cynnwys y canlynol (SEN1920-078):

1. Y Bwrdd Academaidd (09 Mehefin 2020);

2. Y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr (10 Mehefin 2020);

3. Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol (30 Ebrill, a 08 Mehefin 2020);

4. Y Pwyllgor Ymchwil (01 Mehefin 2020); a

5. Y Cyngor (27 Ebrill 2020).

NODWYD

6. Yr adroddiadau a dderbyniwyd o'r pwyllgorau.